# Sicrhau presenoldeb mewn llysoedd a thribiwnlysoedd

## Trosolwg

Mae'r safon hon ynglŷn â hysbysu aelodau o'r cyhoedd y mae'n ofynnol iddynt fynychu gwrandawiadau llys a thribiwnlys, gan gynnwys y rheiny sy'n cael eu herlyn, tystion ac unigolion eraill.

Mae'n cynnwys delio ag ymholiadau ynglŷn ag achosion a chymryd camau i fynd i'r afael â rhwystrau rhag mynychu.  Mae'r safon hon yn eithrio hysbysu rheithwyr wrth ddelio ag achosion mewn llysoedd.

Gall achosion naill fod naill ai'n droseddol neu'n sifil mewn llysoedd neu dribiwnlysoedd.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. penderfynu pa unigolion y mae’n ofynnol iddynt fynychu gwrandawiadau, yn unol â gofynion deddfwriaethol a sefydliadol 2. hysbysu unigolion am ddyddiadau a lleoliadau gwrandawiadau o fewn amserlenni, yn unol â gofynion sefydliadol 3. rhoi gwybodaeth i unigolion i esbonio gweithdrefnau, yn unol â gofynion sefydliadol 4. cyfeirio anawsterau o ran cael cadarnhad am bresenoldeb, yn unol â gofynion sefydliadol 5. adolygu’r wybodaeth a ddarparwyd, yn unol â gofynion deddfwriaethol a sefydliadol 6. nodi rhwystrau rhag mynychu ar yr amser a drefnwyd, yn unol â gofynion sefydliadol 7. ymateb i ymholiadau a godwyd gan y rheiny y mae’n ofynnol iddynt fynychu llysoedd a thribiwnlysoedd, yn unol â gofynion sefydliadol 8. delio ag unigolion, yn unol â gofynion deddfwriaethol a sefydliadol 9. cadw gwybodaeth yn ddiogel, yn unol â gofynion deddfwriaethol a sefydliadol

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. gofynion a gweithdrefnau sefydliadol presennol ar gyfer hysbysu'r rheiny sy'n mynychu llysoedd a thribiwnlysoedd 2. y prif rwystrau rhag mynychu llysoedd a thribiwnlysoedd 3. mathau o gymorth sydd ar gael, a sut i fwrw ymlaen â'r rhain 4. asiantaethau ac unigolion trydydd parti sy'n darparu cymorth, a sut y dylid dechrau eu cynnwys 5. y camau y dylid eu cymryd pan fyddwch yn pryderu am rwystrau rhag mynychu neu fwriad unigolyn i fynychu 6. y mathau o ymholiadau gan y rheiny y mae'n ofynnol iddynt fynychu llysoedd a thribiwnlysoedd a sut i ddelio â'r rhain 7. gwybodaeth sy'n gyfrinachol 8. y rheiny sydd â mynediad at wybodaeth gyfrinachol

# Sicrhau presenoldeb mewn llysoedd a thribiwnlysoedd

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Skills for Justice |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 01 Chwef 2018 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 01 Chwef 2023 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Sgiliau er Cyfiawnder |
| **RCU gwreiddiol** | SFJ DB5 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Swyddog Llys, Swyddog erlyn, Swyddog Tribiwnlys |
| **Cyfres/Set** | Llysoedd, Tribiwnlysoedd ac Erlyniadau |
| **Geiriau Allweddol** | llys; tribiwnlys; achosion; presenoldeb; mynychu; gwrandawiadau; tystion; erlyn |